

# Brîff Brexit



Plaid Cymru | Party of Wales



Blwyddyn newydd dda! Dyma'r chweched rhifyn o'r Briffiad Brexit; gobeithio y gwnewch ei fwynhau. Mae llawer mwy o wybodaeth am yr holl faterion hyn yn [Adran Brexit ein gwefan](#). Mae tri rhan i'r Briffiad:

- 1) Crynhoi o'r Cynulliad
- 2) Newyddion o'r Brifddinas Imperialaidd (San Steffan)
- 3) Newyddion o Senedd Ewrop

Os oes gennych unrhyw adborth, rhowch wybod i ni trwy ebostio [post@plaid.cymru](mailto:post@plaid.cymru)

## Crynhoi o'r Cynulliad

Gan ein llefarydd Brexit yn y Senedd Steffan Lewis AC a'r Tîm Cynulliad



Yr wythnos hon, [tyfodd yr hollt rhwng Llafur Cymru a'u cydweithwyr yn San Steffan wrth iddynt bleidleisio o blaid gwelliant Plaid Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi mynediad llawn a dilyffethair i'r farchnad sengl Ewropeaidd, trwy aelodaeth o EEA a/neu EFTA](#). Mae hyn yn wahanol iawn i safbwynt Jeremy Corbyn ac y mae'n symudiad yn safbwynt Llafur Cymru dros yr wythnosau diwethaf. Bu Plaid Cymru yn glir ers pleidlais y refferendwm

fod y farchnad sengl yn hanfodol ar gyfer busnesau Cymru. Gennym ni y mae'r gyfran uchaf o allforion yn mynd i'r UE o unrhyw rai o genhedloedd y Deyrnas Gyfunol (DG) a gallai gadael wneud difrod enfawr petai ein gallu i allforio i'r UE yn cael ei rwystro gan dariffau neu rwystrau rheoleiddiol. Mae parhau i gyfranogi trwy aelodaeth o EEA a/neu EFTA yn bwysig er mwyn gwarchod economi Cymru wedi Brexit.

Arweiniodd Ysgrifennydd Cabinet cysgodol Plaid Cymru dros Addysg, Llyr Gruffydd AC, ddadl y Senedd i amlygu pwysigrwydd yr Undeb Ewropeaidd i sector addysg uwch Cymru. Derbyniodd sector addysg uwch Cymru €140m o raglen fframwaith yr UE yn ystod cylch 2007-2013, a derbyniodd prifysgolion Cymru tua £180m o gyllid cyfalaf gan Fanc Buddsoddi Ewrop rhwng 2011 a 2016. Gosododd Llyr Gruffydd gynllun 5 pwynt i gefnogi prifysgolion Cymru yn dilyn Brexit:

1. Gwarchod rhaglenni presennol yr UE a chyllid ar gyfer ymchwil ac addysg uwch neu ddarparu rhaglenni a chyllid yn eu lle.
2. Gofalu fod prifysgolion Cymru yn parhau i gymryd rhan yn rhaglenni cyfnewid staff a myfyrwyr Erasmus+ s, a chefnogi mwy o gydweithredu rhyngwladol a chyfnewid myfyrwyr, ymchwilwyr a staff.
3. Diogelu statws a dinasyddiaeth i ddinasyddion yr UE sy'n gweithio ym mhrifysgolion Cymru .
4. Galluogi prifysgolion Cymru i gymryd rhan mewn cynllun fisa o weithio ar ôl gorffen astudio.
5. Tynnu myfyrwyr rhyngwladol allan o dargedau mewnfudo net y DG.

Rhaid cael bargaen Brexit sy'n galluogi Cymru i barhau i ddenu myfyrwyr o bedwar ban byd a galluogi ein prifysgolion i sicrhau cyllid allweddol. Ni ddylai San Steffan fod yn rhwystr rhwng Cymru a'r byd.

[Ailadroddodd Steffan Lewis AC, llyfarydd Plaid Cymru ar Brexi, alwadau am system fisa Gymreig](#) yn dilyn cyhoeddi adroddiad gan y Grŵp Seneddol Amlbleidiol San Steffan ar Integreiddio Cymdeithasol. Galwodd yr adroddiad ar i lywodraeth y DG ystyried datganoli rhai rheolau ar fewnfudo. Gallai hynny olygu y medrai Cymru osod ei chwotâu fisa a mewnfudo ei hun, yn dilyn esiampl Canada lle caniateir i'r llywodraethau taleithiol osod gofynion penodol o ran mewnfudo. Dywedodd Steffan Lewis 'Mae Plaid Cymru ers amser wedi bod o blaid system fisa Gymreig i hybu ein gwasanaethau cyhoeddus fel y gwasanaeth iechyd ac i gefnogi'r sector preifat i ddenu gweithwyr medrus o bedwar ban byd.' Galwodd hefyd am ddatganoli fisas myfyrwyr gan ddweud, 'mae'n destur edifar fod polisïau San Steffan wedi niweidio ein henw da fel cyrchfan i fyfyrwyr rhyngwladol'.

[Dadleuodd Steffan Lewis hefyd y dylai Cymru gael yr un grym i herio Deddfau sy'n cael eu pasio gan Senedd San Steffan ag sydd gan Lywodraeth y DG i herio cyfreithiau Cymru yn y Goruchaf Lys.](#) Rhybuddiodd, yn dilyn dychwelyd pwerau dros faterion datganoledig wedi Brexit, y gallai sefydliad San Steffan sydd yn fwy "eofn" a "chynyddol beryglus" ddeddfu yn unochrog ar faterion sy'n dod yn gyfan gwbl neu yn rhannol o fewn meysydd polisi datganoledig. Galwodd am wiriadau cyfansoddiadol newydd i ailgydbwysu cenedloedd y DG a'i gwneud yn deulu o genhedloedd cyfartal.

## Newyddion o'r Brifddinas Imperialaidd

gan Lefarydd Brexit Plaid Cymru yn San Steffan Jonathan Edwards AS a'r Tîm



Mae dyfarniad y Goruchaf Lys ynghylch a fydd rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol (DG) drafod â Senedd San Steffan ac o bosib y seneddau datganoledig cyn gweithredu Erthygl 50 ar y ffordd, ac [yn ôl y Guardian](#) mae'r llywodraeth yn disgwyl colli'r achos.

Mae Aelodau Seneddol Plaid Cymru i gyd wedi dweud bod angen i Lywodraeth y DG esbonio beth yw ei safbwynt o ran aelodaeth o'r farchnad sengl a'r undeb dollau cyn y bleidlais yn San Steffan. [Fe wnaeth Jonathan Edwards y pwynt hwn ar ddechrau'r flwyddyn.](#)

Mae Jonathan hefyd wedi bod yn gweithio'n galed fel llais Cymru ar Bwyllgor Brexit Tŷ'r Cyffredin ac mae sicrhau cefnogaeth yr aelodau eraill ar y mater wedi bod yn flaenoriaeth iddo. Gwylwch y gofod hwn am ddiweddariad yn fuan.

Cyn y Nadolig [fe wnaeth Hywel Williams alw ar y llywodraeth i gadw addewid y Brexitiwyr y byddai ffrydiau arian ymchwil newydd yn lle'r rhai fydd yn cael eu colli wedi i ni adael yr UE, gan ymrwymo i sicrhau nad yw prifysgolion yn colli ceiniog ar ôl Brexit.](#)

Cododd bryderon fod methiant y llywodraeth i ddarparu sicrwydd ar gyfer dyfodol ariannol gwyddoniaeth ac ymchwil yn peryglu dyfodol addysg a gwyddoniaeth yng Nghymru.

Mae ffigyrau'n dangos fod sefydliadau Cymreig wedi derbyn gwerth €183.4m o arian ymchwil rhwng 2002 a 2013, yn ogystal â €29m ychwanegol o gyllidebau gydol oes, gan gynnwys Erasmus, dros gyfnod 2007-13.

Fe wnaeth Liz Saville Roberts – ein llefarydd ar Faterion Gwledig – [rybuddio fod ffermwyr Cymru yn wynebu 'bygythiad dirfodol' i'w bywoliaeth os yw Ysgrifennydd Materion Gwledig Prydain, Andrea Leadsom, yn cymryd rheolaeth o bolisi amaethyddol yr UE.](#)

Daeth y rhybudd wedi i Leadsom gyhoeddi y byddai'n sgrapio'r rheol "tri chnwd" sydd yn ymrwymo ffermwyr i dyfu tri math gwahanol o gnydau er mwyn amddiffyn bywyd gwylt. Rhybuddiodd Liz fod Leadsom yn ceisio gwneud ffafrau â ffermwyr cnydau diwydiannol sy'n ffermio ar raddfa fawr, gan anwybyddu pryderon y ffermwyr hynny sydd yn allforio ac yn dibynnu ar gymorthdaliadau UE.

Yn ôl [adroddiad a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn](#) (Mawrth 4ydd) gan Bwyllgor Archwilio Amgylcheddol San Steffan, gallai allforio cig oen wynebu tariffau o 30% neu fwy a 50% ar gyfer cig eidion os yw'r wladwriaeth Brydeinig yn cael ei thynnu o'r farchnad sengl.

Galwodd Liz ar San Steffan i anrhydeddu addewid y Brexitwyr y byddai cymorthdaliadau ffermydd yn cael eu gwarchod yn dilyn Brexit. Mae taliadau i ffermwyr drwy'r system CAP yn cynrychioli 80% o incwm ffermydd yng Nghymru ac yn cefnogi 16,000 o ffermwyr.

## Rhagolygon

Mi fydd yr wythnosau nesaf yn hollbwysig o ran siapio rhagolygon ein cenedl. Rydym yn disgwyl penderfyniad y Goruchaf Lys yn fuan ac i'r Llywodraeth gyhoeddi eu cynllun yn fuan wedi hynny.

Mi fydd y Pwyllgor Dethol Brexit, gyda Jonathan Edwards fel yr unig aelod Cymreig, yn cyhoeddi ei adroddiad o fewn y dyddiau nesaf ac mae'n tîm yn San Steffan yn parhau i weithio gyda'u cymrodyr yn y Cynulliad ac yn Ewrop er mwyn sicrhau bod llais Cymru'n cael ei glywed a fod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli.

Dilynwch [@JonathanPlaid](#) a [@Plaid Cymru](#) ar Twitter er mwyn derbyn yr holl newyddion diweddaraf am waith y Grŵp Seneddol ar Brexit.

## O Senedd Ewrop

gan Jill Evans ASE & a Thîm Plaid Cymru Ewrop



### Tîm Trafod yr UE

Mae prif drafodwr yr UE ar Brexit, Michael Barnier, wedi penodi tasglu o dri deg o bobl i gydgordio safbwynt yr UE. Mae'n debyg y bydd y tasglu yn dyblu mewn maint pan fydd y trafodaethau ffurfiol yn cychwyn. Mae'n cynnwys arbenigwyr ar wasanaethau ariannol a chyllidebau, ac y mae'r dirprwy ymgynghorydd diplomataidd yn uwch-was sifil o Ffrainc.

### Europass ac Erasmus

Mae holl Bwyllgorau Senedd Ewrop yn awr yn llunio eu hadroddiadau ar effaith ymadawiad y DG ar eu gwaith presennol. I'r Pwyllgor Diwylliant, y mae Jill yn aelod ohono, mae hyn yn golygu adolygu cynllun Europass ac y mae hyn yn debyg o ddigwydd cyn diwedd y flwyddyn. Mae Europass yn ei gwneud yn haws i weithio ac astudio yng ngwledydd eraill yr UE trwy restru sgiliau a chymwysterau. Un eitem yw ieithoedd, a llwyddodd Jill i gael y Gymraeg wedi ei chynnwys pan lansiwyd y cynllun gyntaf. Mae Jill yn dilyn yr adolygiad hwn ar ran Grŵp y Gwyrddion/EFA. Ar hyn o bryd, mae'r Europass yn agored i wladwriaethau sy'n dod i mewn ac i wledydd yr EEA, yn ogystal â gwledydd sy'n ymgeisio. Bydd yn arbennig o bwysig i bobl ifanc yng Nghymru ein bod yn cadw aelodaeth o Europass yn ogystal ag Erasmus+ sy'n rhoi cefnogaeth ariannol i bobl ifanc sydd am astudio, gweithio ac ennill profiad yng ngwledydd eraill yr UE.

### **Erthygl 50: Dehongliad Cyfansoddiadol**

Cyhoeddodd y Sefydliad Ewropeaidd adroddiad ar Erthygl 50 o'r Cytundeb ar yr Undeb Ewropeaidd gan yr Athro Piet Eeckhout, Cyfarwyddwr Academaidd y Sefydliad Ewropeaidd, a'r Dr Eleni Frantziou, Darlithydd yng Nghyfadrann y Gyfraith ym Mhrifysgol Westminster. Maent yn dadlau y bydd angen i ymadawiad Prydain o'r UE gydymffurfio'n llawn â chyfraith gyfansoddiadol yr UE, ac y bydd canlyniadau pwysig i hyn, gan gynnwys:

- Bydd Llys Cyfiawnder yr UE yn cadw'r hawl i adolygu a goruchwyllo'r broses o ymadawiad Prydain.
- Gall gwneud i ddinasyddion yr UE adael y DG dorri Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE a Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop, gan adael y DG yn agored i ymglyfreitha.
- Mae defnyddio dinasyddion fel 'cownteri bargeinio' hefyd yn groes i'r Siarter a'r Confensiwn.
- Nid yw'n ddigon i Senedd Prydain gael dweud ei dweud ar ddiwedd y broses drafod ar unrhyw fargen a wneir, gan mai'r unig ddewis arall yn lle'r un a drafodir gan y llywodraeth yw dim bargaen o gwbl. Mae'n rhaid i'r Senedd fod yn rhan o'r broses drwyddi draw.
- Mae modd gosod i lawr delerau i ymadawiad y DG a'r berthynas gyda'r UE mewn un cytundeb.
- Er y tybir nad oes modd troi'n ôl ar Erthygl 50, byddai dyletswydd ar yr UE i weithredu ar unrhyw benderfyniad *bona fide* i aros yn yr UE.